# Cyflwyniad i Archwilio Cymru – Trawsgrifiad Pennod

## Cyflwyniad

**Alex Swift (Cyfnewidfa Arfer Da):**
Helo, this episode will be in Welsh. If your Welsh isn't up to following along, then we're completely fine with you skipping to the next one.

You won't miss out on any content, because we will be putting transcripts and translations of every episode in English and Welsh on our website.

**Rhian Jones (Tim Cyfathrebu):**
Helo a chroeso i'r Gyfnewidfa, podlediad wedi ei gynhyrchu gan Archwilio Cymru. Rhian ydw i, a rydw i'n gweithio i'r tîm cyfathrebu.

Archwilio Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am archwilio sector cyhoeddus ddatgonoledig yn ariannol ac o ran perfformiad. Mae hynny'n cynnwys pob corff o'r cyngor cymuned lleiaf i Lywodraeth Cymru a phob corff arall sydd rhwng y ddau begwn yma.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhan enfawr o fywyd Cymru. Pan maent yn gweithio'n dda mae pawb yn elwa, ond pam nad ydynt yn gweithio'n cystal, yna gall cymunedau cyfan yn dioddef.

Ond beth yw gwaith corff archwilio, a pham? Ydy corff archwilio yn gwneud mwy na dim on edrych trwy cyfrifon eich cyngor lleol gyda chrib mân?

Er mwyn ateb y cwestiynau yma a mynd â chi ar daith sydyn o gwmpas Archwilio Cymru, dyma Molly Simmonds a Yazmin Bradberry, ac mae'r ddwy ohonyn nhw yn hyfforddeion archwilio yma yn Archwilio Cymru.

**Molly Simmonds (Cyflwynydd, Hyfforddai Archwilio):**
Diolch Rhian. Molly Simmonds ydw i, ac fel ddwedodd Rhian, rydw i'n hyfforddai archwilio yn y bedwerydd flwyddyn.

**Yazmin Bradberry (Cyflwynydd, Hyfforddai Archwilio):**
Yazmin Bradberry ydw i, a dw i hefyd yn hyfforddai archwilio ond yn yr ail flwyddyn.

**Molly Simmonds:**
Rydym yng nghanol swyddfeydd Archwilio Cymru ar stryd Tyndal yng Nghaerdydd, ar un o'r dyddiau prysur yn y swyddfa, ac wrth i bobl pasio heibio, rydym am ddal eu sylw a gofyn iddyn nhw egluro beth yw eu gwaith.

**Yazmin Bradberry:**
Ond, i ddechrau, dyma egluro pwy ydyn ni.

Archwilio Cymru yw'r brand ar corff sydd yn cynnwys dau endyd cyfreithiol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn benodiad gan y Goron, ac felly mae'n annibynnol o'r Llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil.

**Molly Simmonds:**
Ei rôl yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n cael ei ariannu ganddo, fel y Llyfrgell Genedlaethol, Estyn neu Banc Datblygu Cymru, y Deuddegdau Cyngor, yr Awdurdodau Tân ac Achub, yr Heddlu, y Parciau Cenedlaethol, Comisiwn y Senedd a'r Byrddau Iechyd, heb anghofio saith cant tri deg pump o gynghorau tref a chymuned sydd yng Nghymru.

**Yazmin Bradberry:**
Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn gwario a rheoli arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maent yn cael gwerth am arian. Mae ganddo hefyd rôl wrth asesu pa mor llwyddiannus mae cyrff cyhoeddus yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol ar waith.Ma'r holl waith yma'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**Molly Simmonds:**
Ac y mae hefyd yn cael ei rannu gyda Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

Swyddfa Archwilio Cymru sydd yn cyflogi'r staff a darparu'r adnoddau sydd yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.

**Yazmin Bradberry:**
Ma' tua tri chant o bobl yn gweithio i Archwilio Cymru, gyda tua tri chwarter ohonynt yn gweithio fel archwilwyr.

Ma'r staff eraill yn gweithio mewn gwasanaethau cefnogol sydd yn galluogi'r archwilwyr i wneud eu gwaith.

## Archwilio Ariannol

**Molly Simmonds:**
Mae'n adran archwilio wedi'i rannu mewn i archwilio ariannol ac archwilio perfformiad, gyda tua dau draean o'r staff yn archwilwyr ariannol.

Mae'n broses o gyrraedd tuag at y gwir, wrth edrych ar sefydliad, ond mae gwahaniaethau rhwng archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

**Yazmin Bradberry:**
Archwilio ariannol ydy bara menyn archwilio Cymru, a bydd y rhan nesaf yn sôn mwy am hynny.

**Matthew Edwards (Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Ariannol)**
Matthew Edwards. Cyfarwyddwr Archwilio i Archwilio Cymru yn y Gogledd, Gogledd Cymru a dwi wrthi yn ystyried y cwestiwn pam fod angen i ni archwilio cyfrifon.

Wel i ateb y cwestiwn dwi'n meddwl mae'n rhaid i ni jyst ystyried rôl Archwilio Cymru a hefyd yr archwilydd cyffredinol Adrian Crompton ar hyn o bryda mae elfen pwysig o'r gwaith statudol dan ni'n wneud yn cyfeirio at y gwaith archwilio ariannol.

sydd yn ystyried mewn ffordd y dogfennau ma' cyrff yn paratoi i adlewyrchu y gwariant yn y blwyddyn neu unrhyw balansau sydd ganddyn nhw a ma'r gwaith yn bwysig oherwydd mae'n rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn gyfrifol ac yn effeithiol a'r ffaith bod nhw'n cyfrifo am yr arian maen nhw wedi ei wario, a sut maen nhw'n defnyddio fo hefyd, achos ma'n rhoi llwyth o wybodaeth i'r pobl sydd yn defnyddio'r gwybodaeth sydd ar gael.

A ma'n gwaith ni mewn ffordd yn cyfrannu at hyder y cyhoedd hefyd, bod nhw'n deall sut ma'r cyrff sydd yn rhoi y gwasanaethau iddyn nhw, y gwasanaethau pwysig yn helpu nhw i deallt sut maen nhw'n gwario'r arian a fel dwi'n deud ma'r Archwilydd Cyffredinol a Archwilio Cymru efo rôl pwysig i rhoi y sicrwydd yna bod be sydd wedi cael ei darparu neu wedi cael ei cynnwys yn y cyfrifon yn dangos y sefyllfa gwir a theg ac hefyd yn dilyn y safonau sydd angen i'r corff ei adlewyrchu wrth paratoi y gwybodaeth..

So o ran y proses o'r dull archwilio wel mae o'n dechrau efo'r cyrff cyhoeddus, so Llywodraeth Cymru awdurdodau lleol, yr Adran Iechyd a mae angen iddyn nhw baratoi cyfrifon statudol bob blwyddyn drafft a maen nhw'n rhannu y cynnwys efo ni sydd yn cynnwys pethe fel y fantolen, y cyfrif incwm a gwariant a unrhyw nodiadau sydd angen iddyn nhw cynnwys yn y cyfrifon sydd yn dilyn y safonau sydd angen iddyn nhw dilyn fel y cod sy'n ca'l ei gyhoeddi gan CIPFA neu y FFREM gan y trysolus yn Llundain ac o ran hynny ma' nw'n rhannu y drafft efo ni a dan ni wrthi yn y yn y cefndir yn yn paratoi ein gwaith cynllunio i asesu y risg a'r dull archwilio i ymateb i risgiau dan ni di nodi o ran y cyfrifon a dan ni'n datblygu'r cynllun a'r dull archwilio yn dilyn hynny.

So ar ôl cwblhau y gwaith cynllunio a datblygu a dull archwilio, ma' na angen i ni wneud y gwaith so ma'r tîm yn mynd wrthi i casglu'r dystiolaeth a penderfynu os yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau materol.

so ma' na lwyth o waith i wneud o ran hynny dan ni'n ystyried y safonau cyfrifo a hefyd ystyried unrhyw dystiolaeth sydd yn helpu ni darparu darlun os ydi'r cyfrifon yn gwir a theg.

Hefyd ma'r tîm yn ystyried gwaith manwl hefyd so falla wnaethon nhw ystyried o ran bod y balansau y fantolen balansau credydwyr fel enghraifft mi wnawn nhw fynd at unrhyw anfanebau sydd yn cefnogi beth sydd yn y ledger i sicrhau bod beth sydd yn y cyfrifon yn wir a theg ac o ran yr anfonebau fyddwn ni'n ystyried falla ydy o'n cyfeirio at y corff cywir y blwyddyn ariannol cywir.

A hefyd os ydy'r gwerth yn cael ei adlewyrchu yn y ledger a'r cyfrifon hefyd i sicrhau bod popeth yn cytuno yn ôl.

So ma'r gwaith yna yn amrywiol ac yn ddiddorol hefyd. Dwi wrth fy modd yn gweithio yn Archwilio Cymru achos dan ni efo rôl hynod o bwysig yn sicr o ran y rôl statudol, ond hefyd dwi'n gweld ma' na rôl pwysig hefyd i ni helpu y cyrff dan ni'n archwilio. Ma' na fodd i ni rannu be dan ni'n gweld mewn llefydd eraill o ran ymarfer da ac yn y blaen.

So ‘da ni efo yn sicr rôl rili pwysig o ran hynny a hefyd dwi'n mwynhau yr amrywiaeth yn y rôl eto t'mod ma' un diwrnod i'r llall yn hollol wahanol dwi'n gweithio efo cyrff gwahanol o ddydd i ddydd so ie ma'r amrywiaeth yn pwysig hefyd ac yn helpu.

## Archwilio Perfformiad

**Molly Simmonds:**
Archwilio perfformiad yw rhan fawr arall i'n gwaith archwilio.

Ac mae Carwyn Rees, sydd yn reolwr archwilio sydd â chyfrifoldeb dros gynghorau'r Gogledd, yma i egluro mwy.

**Carwyn Rees (Rheolwr Archwilio, Archwilio Perfformiad):**
Shwmae, fy enw i yw Carwyn Rees.

Dwi'n reolwr archwilio yn nhîm lywodraeth lleol yn gwneud performance audit yn Archwilio Cymru ar hyn o bryd.

Wel i fi y prif pwrpas yw asesiad annibynnol. Allwn ni edrych ar y sector gyhoeddus, ar gorff unigol, neu gyda'i gilydd ar lefel cenedlaethol.

I edrych i weld os yw gwasanaeth neu ryw brosiect a be ma yr arian cyhoeddus yn cael ei wario ar yn darparu gwerth am arian ma' pwerau yr archwilydd cyffredinol yn cyrraedd lot o lefydd a ma' gennyn ni remit enfawr i ddilyn y bynt cyhoeddus a pwrpas hwnna wedyn yw i allu neilltuo hyder a bo' pobol gallu ymddiried yn sut mae eu arian treth nhw yn cael ei wario, a hefyd ar yr un pryd yn gallu gyrru gwelliant o fewn y sector trwy roi argymhellion yn ein gwaith.

Mae cyrff cyhoeddus yn gwybod bo' na rywun yn dod i edrych ar y safonau maen nhw'n cyrraedd, a'r ffaith bo' ni'n gorff annibynnol sy'n wneud hwn, heb agenda, heb bias, yn helpu ni wneud yn siŵr bod be' ni'n rhannu yn ffeithiol, ag y peth cynta sy angen i ni wneud yw i feddwl, wel pa sicrwydd sy sydd i angen, pa gwestiwn sy gyda ni i wneud yn siŵr bo' ni'n hyderus o'r ateb.

A wedyn ar ôl i ni ddewis y cwestiwn yna, allen ni fynd ati i gasglu tystiolaeth, dadansoddi data, darllen dogfennau, wneud holiaduron, mynd mas a cynnal sgyrsiau ag unigolion, er mwyn gwneud yn siŵr bod ni'n deall safbwynt a gallu casglu tystiolaeth falle sy'n gwrthddweud ei gilydd ar adegau, ond wedyn gallu cymryd cam nôl.

A meddwl be ma hyn yn ei olygu gyda'i gilydd? Be yw'r gwir yma?

Ac wedyn rhoi hynny at ei gilydd a dehongli'r hyn 'da ni wedi ei weld yn ein gwaith.

Mae dau esiampl diweddar o waith Archwilio Cymru rwy'n meddwl sydd werth trafod ar y pwynt yma:

Adroddiad diweddar ar lety dros dro mae'r cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth ar draws Cymru wedi cynyddu bum gwaith yn y degawd diwethaf. Be ni'n ei weld gyda'r cynnydd yn y galw, hynny yn achosi costau i fynd trwy'r tô.

Yr hyn nad ydym ni'n ei weld ar hyn o bryd yw gweld cynghorau yn gwneud digon ar y funud i gynyddu be mae nhw'n ei wneud i atal pobol rhag bod angen y gwasanaeth yma er mwyn sicrhau fod nhw'n cael gwerth am arian, ac mae atal y gwariant yn mynd i fod yn fwy o werth am arian na gwario yn effeithiol.

Ma'r gwasanaeth dan straen, ac felly dan ni'm yn gweld nhw'n wneud digon i asesu eu gwerth am arian, pa wasanaethau, sut maen nhw'n darparu'r gwasanaeth, a ai dyna'r ffordd mwya effeithiol o wneud hynny.

A ma'r adroddiad yn galw ar gynghorau i feddwl am y ddau gwestiwn yna er mwyn gwella safon y gwasanaeth, a faint ma' hwnna'n ei gostio.

Adroddiad arall dwi'n meddwl sy'n werth talu sylw ato fe yw adroddiad wnaethon ni sgwennu cychwyn y flwyddyn ar wasanaethau cancr ma' cael diagnosis a thriniaeth amserol yn hanfodol i'r gwasanaeth fod yn llwyddiannus.

Ma' na fwy o fuddsoddi wedi mynd mewn yn genedlaethol i trio gwella'n perfformiad yn y maes yma, ond er hynny.

Mae yna fethiant parhaus i gyrraedd y targedau cenedlaethol, a does dim un bwrdd iechyd wedi cyrraedd y targed cenedlaethol ers 2020, sy'n fethiant am bron i bum mlynedd. Felly mae'r adroddiad yn galw am arweiniaeth cenedlaethol i ddod i'r afael â'r broblem yma.

## Canllawiau a Datblygu Archwilio

**Yazmin Bradberry:**
Fel pob maes proffesiynol arall, mae gan y maes archwilio drefniadau sy'n sicrhau gwaith o'r safonau ucha.

Yn Archwilio Cymru, mae gennym dîm sydd yn sicrhau ein bod yn cadw at y safonau rhyngwladol yna, ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud gwaith o'r safon ucha.

**Lora Gwawr Williams (Archwilydd Arweiniol, Tim Canllawiau ac Arweiniad Archwilio):**
Lora Gwawr Williams dwi, dwi'n archwilydd arweiniol dros dro efo'r tîm AD&G yn Archwilio Cymru.

Felly mae yna dîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio perfformiad neu AD&G yn benodol ar gyfer archwilio perfformiad.

Tîm bychan ydy o, mae o'n wasgaredig, ma' na ddau gydweithiwr llawn amsar, a wedyn maen nhw'n derbyn cymorth ychwanegol yn achlysurol gen i ar y ddau achlysur dwytha.

Da ni'n gweithio'n agos i gyflawni rhaglen waith flynyddol, a hefyd dan ni'n gweithio ochr yn ochr efo'r tîm AD&G ehangach, a wedyn maen nhw'n cefnogi archwilio ariannol, ac yn cyfrannu at amcanion ehangach y tîm hwnnw.

Mae enw da a thraw effaith Archwilio Cymru yn dibynnu ar ansawdd y gwaith dan ni'n cyflawni a'i cyhoeddi, a wedyn yn ganolog i'r llwyddiant, ma' ffocws ddibaid ar sicrhau ansawdd yn gwaith Archwilio ni wrth gwrs.

Felly, yn ei hanfod, ma' tîm AD&G yn helpu Archwilio Cymru i wella ei ddull Archwilio perfformiad a hynny'n barhaus, a dan ni'n gwneud hynny trwy gydweithio efo cydweithwyr ar bob lefel o'r sefydliad.
Do's na ddim diwrnod arferol yn y tîm. Ac mae ganddo ni bortffolio amrywiol o waith ond fel enghraifft fysa hynny'n gallu cynnwys cyfrannu at ddatblygiadau archwilio newydd fel dulliau archwilio, mentrau gwirio ansawdd eraill, gweithio hefo cydweithwyr yn y timoedd technoleg gwybodaeth neu dadansoddi data i lunio apiau neu fynnonellau data eraill ac yn ysgrifennu cynigion a'u cyflwyno nhw i bwyllgorau fel y pwyllgor cyfarwyddwyr neu'r tim arweinyddiaeth gweithredol.

Da ni'n creu eitemau cyfathrebu wedi ei targedu i'n cydweithwyr fel yr erthyglu cryno Audit Talk a Hwb ambell waith 'da ni'n cyhoeddi petha ar y wefan gorfforaethol hefyd ac yn cynrychioli AD&G mewn cyfarfodydd tîmau archwilio perfformiad, er mwyn eu diweddaru nhw am y datblygiadau diweddara ac i ateb cwestiynau am ansawdd neu cysondeb efo dulliau archwilio.

‘Da ni'n datblygu ac yn cyflwyno hyfforddiant a chanllawiau mewnol, ac ar hyn o bryd darn sylweddol o'n ngwaith i ydy datblygu pecyn hyfforddiant ar gyfer archwilwyr ariannol sydd yn hyfforddeion graddedig, er mwyn iddyn nhw gael blas ar archwilio perfformiad a cynnig mwy o gyfleoedd gwaith iddyn nhw pan ddaw eu cyfnod hyfforddi nhw i ben.

Mae Archwilio Cymru yn cynnal aelodaeth gorfforaethol o sefydliadau CIPFA (Chatrered Institute of Public Finance and Accountancy) a CAAF (Canadian Audit and Accountability Foundation) ac INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) ac at eu gilydd maent yn ein cadw ni mewn gwybodaeth am ddatblygiadau mewn archwilio perfformiad o bob cwr o'r byd.

A wedyn ychydig flynyddoedd yn ôl mi fabwysiadodd Archwilio Cymru safonau INTOSAI a mynd ati i addasu ein canllaw archwilio perfformiad ni fel sicrhau ei fod o'n cydymffurfio hefo'r safonau rhyngwladol hynny ac felly sicrhau ansawdd uchel i'n allbynnau archwilio perfformiad ni fel bod o'n sicrhau cydymffurfiaeth efo'r safonau rhyngwladol hynny a trwy hynny sicrhau ansawdd uchel unhallbynna archwilio perfformiad ni.

'Da ni'n mynychu cynadleddau a digwyddiadau i ddysgu yn barhaus er mwyn dysgu am y datblygiadau diweddaraf a hefyd yn rhwydweithio yn bwrpasol gyda phobl cydradd a ni am yr un rheswm.

Mae'n rhaglen dysgu a datblygu blynyddol ni yn ceisio gwella meysydd dan ni di nodi sydd angen i cryfhau i wella ein dulliau archwilion ni, a sa' hyn yn gallu bod yn sgilia calad a meddal.

Mae hyfforddiant parhau yn rhan o ddiwylliant Archwilio Cymru, a mae'r tîm yma'n cyfrannu'n fawr at y rhaglen hyfforddi. Mae sicrhau ansawdd archwilio'n hollbwysig i gynnal enw da a hygrededd Archwilio Cymru hefyd wrth gwrs, ac fydd yn cydweithwyr ni yn fewnol yn dilyn ein model ansawdd tair llinell sicrwydd ni sy'n cynnwys y dull yma.

Ma' na rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan ni, ond yn fras ma'r llinell sicrwydd gynta yn cynnwys ein staff ni a'n rheolwyr, a wedyn sy'n gyfrifol fel unigolion ac ar y cyd am gyrraedd y safonau ansawdd archwilio dan ni'n dyheu amdanyn nhw.

Ma' angen iddyn nhw fod efo'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth angerheidiol i wneud hyn. Yr ail linell sicrwydd ydy'r polisïau, yr offer, y dysgu, a'r ddatblygu, y canllawiau a'r arweinyddiaeth dan ni'n darparu i staff i'w cynorthwyo nhw i gyrraedd y safonau hynny o ran ansawdd archwilio.

A wedyn y drydedd linell sicrwydd ydy'r gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell gynta, ac i helpu i adnabod cyfleoedd i wella'n barhaus, a ma' hynna'n cynnwys adolygiadau gan gynghreiriaid ac adolygiadau oer fel dan ni'n galw nhw.

A wedyn ma' hwnna'n mynd ati i ateb y cwestiwn pwy sy'n archwilio'r archwilwyr fel petai.

‘Da ni hefyd yn ddarstynedig i yym safon ryngwladol ar reoli ansawdd ISQM 1 ac un o elfenna o'r safon ansawdd honno ‘da ni'n gyfrifol amdani yn y tîm AD&G archwilio perfformiad ydy i ddadansoddi achosion gwraidd o broblema neu o petha sy'n mynd yn llwyddiannus yn ein archwiliadau ni a ma' hynna wedyn yn cael ei adnabod yn fwy adnabyddus fel RCA neu Root Cause Analysis.

## Adroddiadau Er Budd y Cyhoedd

**Molly Simmonds:**
Un o'r grymoedd sydd gan yr archwilydd cyffredinol yw'r grym i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd, ac mae Morgan Burchell wedi ymuno gyda ni er mwyn dweud mwy am yr adroddiadau yma.

**Morgan Burchell (Uwch Archwilydd, Archwilio Ariannol):**
Haia Molly, Morgan sy ‘ma, a dwi'n uwch-archwilydd yn gweithio ar gyrff yn De Cymru.

**Molly Simmonds:**
Diolch. Beth yw adroddiad er budd y cyhoedd?

**Morgan Burchell:**
Mae'n dogfen ffurfiol sydd yn cael ei chyhoeddi yn unol â deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 er budd y cyhoedd yw'r adroddiad. Mae'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ddod â materion i lygad y cyhoedd os yw'n teimlo ei fod o fudd i'r cyhoedd.

Mae adroddiad o'r fath yn cael ei lunio pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol wrth ei waith archwilio neu ymchwiliad yn adnabod materion sydd yn ddigon difrifol neu arwyddocaol, sydd angen cael ei wneud yn gyhoeddus neu ei graffu, neu sy'n faterion sy'n ymwneud â llywodraethiant, rheolaeth ariannol neu gyflawni gwasanaethau cyhoeddus.

Pan fydd adroddiad o'r fath yn cael ei gyhoeddi i awdurdod lleol, mae'n rhaid iddo gynnal cyfarfod cyhoeddus o fewn mis er mwyn ystyried ei ymateb.

Yn aml, mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion er mwyn gwella, a bydd cynnydd ar yr argymhellion yn cael ei godi mewn archwiliadau dilynol. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau ar bydd y cyhoedd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.
Bydd disgwyl i swyddogion o'r corff perthnasol fod yn bresennol yn yr ymchwiliad a fydd yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor, gan ymateb i gwestiynau am sut wnaeth y sefyllfa godi a pha gamau sydd wedi ei gymryd er mwyn datrys y sefyllfa.

**Molly Simmonds:**
A beth sydd yn achosi dechrau'r broses o greu un?

Mae adroddiadau yn cael eu creu oherwydd camddefnyddio arian cyhoeddus, llywodraethu neu benderfyniadau gwael, diffyg tryolywder neu atebolrwydd, methu dilyn gweithdrefnau priodol neu torri polisïau neu'r gyfraith mewn modd arwyddocaol.

Mae'r sefyllfaoedd yma'n tueddu i godi o gyfuniad o wendidau systemig, gweithredu gan unigolion a ffactorau diwylliannol neu amgylcheddol mewn sefydliad.

**Molly Simmonds:**
Fedri di roi esiampl i ni od gweli di’n dda?

**Morgan Burchell:**
Wrth gwrs, esiampl o adroddiad er budd y cyhoedd oedd trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru. Mi oedd y gost taliad setliad, yn ogystal â ffioedd cyfreithiol a ffioedd cyngor, yn agosáu at £750,000.

Prif ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol oedd:
1; diffyg polisïau addas. Nid oedd gan Amgueddfa Cymru bolisïau angenrheidiol er mwyn cyfarch pryderon a godwyd gan uwch swyddogion ac aelodau anweithredol y bwrdd.

2; llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Roedd gwendidau mewn agweddau o lywodraethiant ar broses o ddatrys yr anghydfod.

3; defnydd anaddas o arian cyhoeddus. Nid oedd Amgueddfa Cymru yn medru dangos ei fod wedi gweithredu er ei fudd gorau fel elusen, na bod setliad ariannol o £325,000 yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.

4; aneglurder o ran gweithredu gan y Llywodraeth. Mae'n aneglur os oedd Llywodraeth Cymru wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol er mwyn ystyried a chaniatáu'r cytundeb setliad.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, gyflwynodd nifer o gyrff cyhoeddus ganfyddiadau'r adroddiad fel eitem yn eu pwyllgorau archwilio, er mwyn sicrhau fod swyddogion ac aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r methiannau, er mwyn peidio gwneud yr un camgymeriadau eu hunain.

Mi oedd hyn yn gyfnod heriol iawn i'r staff wnaeth greu'r adroddiad, ond oedd hi'n hefyd gyfnod o ddysgu, ac oedd yna nifer o gyfleoedd gwahanol fel bod yn bresennol

mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, er mwyn clywed ymateb swyddogion Amgueddfa Cymru i'r adroddiad.

**Molly Simmonds:**
Diolch am ddeud mwy am adroddiadau er budd y cyhoedd, Morgan.

Dyma un o'r ffyrdd rydym ni'n ei ddefnyddio er mwyn tynnu sylw at broblemau neu gamweinyddiaeth sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

## Dadansoddi Data

**Molly Simmonds:**
Yn y byd sydd ohoni, mae trin data a'i ddadansoddi yn hanfodol. Y tîm dadansoddi data yw i'n harbenigwyr ar ddadansoddeg data.

**Carwyn Jones (Prentis Dadansoddi Data, Tim Dadansoddi Data)**:
Fi yw Carwyn Jones a dwi'n newydd ddechrau fel prentis dadansoddi data yma yn Archwilio Cymru.

Y ddau peth mwya ydyn ni'n wneud yw creu arfau i'r archwilwyr i helpu gwneud eu gwaith nhw yn cyflymach neu'n well neu falle'r ddau pan y'n ni'n lwcus, neu i greu arfau sy'n mynd mas i'r cyhoedd i ddangos beth rydyn ni wedi ffeindio mas trwy'n gwaith ni hefyd.

Ma' llawer o steps gwahanol wrth i ni fynd trwy'n gwaith ni. Un mantais mawr yn enwedig i fi yn newydd a'n dysgu yw bod ni mewn tîm bach ac mae cyfrifoldeb 'da pawb i fynd trwy pob maes.

So falle mewn tîm mwy bydde tîm bach o fewn y tîm dadansoddi data falle bod disgwyl i rywun arbenigo naill llai mewn fatha data cleaning neu data processing y data modelling falle neu bach o codo hefyd a programming.

Ond yn ein tîm ni ma' ryw prosiect bob un neu yn aml mwy nag un ar y tro, ond mynd trwy pob maes wedyn a wneud y gwaith yna i gyd.

A fel rywun sy'n dechrau ma' hwnna'n exciting iawn i fi, gallu gweld popeth bydd bydda i'n dysgu am pob maes trwy'r amser 'da Archwilio Cymru.

Newydd ddechrau i fi wedi bod ma' jyst dros mis ac yn barod wedi cwrdd â'r tîm i gyd, maen nhw'n groesawgar iawn. Wedi bod yn lyfli ddod i'r swyddfa fan hyn yn Gaerdydd dwy waith yr wythnos a hefyd gallu gweithio o gatre, sy'n help mawr i fi wrth i fi ddysgu, gallu dysgu ar pace yn hunan rhoi y training gwahanol ar y diwrnodau sy'n siwtio fi hefyd.

Ma' lot i ddysgu.

Dwi di dod mewn gyda ychydig bach o wybodaeth yn barod, ond ma' lot 'da fi i ddysgu wrth y tîm ac yn y brifysgol hefyd. So fel ran o'r prentisiaeth, fi'n mynd i'r brifysgol i wneud gradd dadansoddi data a wedi gallu cwrdd â pobl o cwmnïau gwahanol hefyd.

Fi yw'r unig prentis sy yn mynd ar y cwrs hyn o Archwilio Cymru, ond mae grŵp mawr o'n i wedi ymuno â'r brifysgol blwyddyn hyn, ryw grŵp o 25-30 ohonon ni, a gallu dysgu wrtho nhw hefyd, dim dim ond wrth staff y Brifysgol, ond mae pob un ar y cwrs hyn yn gweithio mewn lle gwahanol a gwneud eu gwaith mewn ffordd gwahanol.

So ni fan hyn o beth rydw i'n gweld mae pawb yn y tîm yn archwilio Cymru yn gwneud lot fwy o arfe interactive, so ni moyn popeth y'n ni'n wneud i gael ei ddefnyddio i archwilio, neu i ffeindio rwbeth mas, lle o beth dwi di clywed yn siarad i'r pobl arall ar y cwrs, ma' rhai cwmnïau yn wneud mwy o'r gwaith ‘na tu ôl y llên, yn gwneud y gwaith archwilio yna o fewn y tîm dadansoddi data, ac yn dod i ryw neges maen nhw moyn rhoi mas.

So ma' lot fwy o'r elfen o gyfathrebu i rywbeth sy wedi cael ei ffeindio mas yn barod ym gyda cwmni arall lle yn Archwilio Cymru ma' mwy o creu rywbeth interactive, rywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i archwilio.

## Y Gyfnewidfa Arfer Da

**Yazmin Bradberry:**
Gwasanaeth unigryw sy'n cael ei ddarparu gan Archwilio Cymru yw'r Gyfnewidfa Arfer Dda.

Tîm bach sy'n gweithio i gasglu a rhannu esiamplau o arfer dda. Mae Siôn Owen wedi ymuno gyda ni i drafod mwy.

**Siôn Owen (Swyddog Cyfnewid Gwybodaeth, Cyfnewidfa Arfer Da):**
Helo, Siôn Owen ydw i, a dwi'n swyddog cyfnewid gwybodaeth i'r Gyfnewidfa Arfer Dda.

Prif amcan y Gyfnewidfa Arfer Dda, neu GPX, ydy helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella, ond ni deud wrth erill be' i wneud di'n rôl ni, yn hytrach dan ni'n rhannu syniadau, dulliau a dysg o bob rhan o Gymru a thu hwnt, fel fod pobl yn medru cymyd yr hyn maen nhw'n ei weld yn ddefnyddiol a'i addasu ar gyfer eu cyd-destun eu hunain.

A mae’r gair addasu yn bwysig.

‘Da ni'm yn credu mewn arfer ora' fel un dull sy'n gweithio i bawb. Fedar rwbath sy'n gweithio'n wych mewn un lle fod yn methu'r nod mewn lle arall. A'r ffordd 'da ni'n gwneud ein gwaith ydi adnabod a chofnodi syniadau difyr ac yna eu rhannu.

A mae'n bwysig hefyd ein bod ni'n bod yn onest hefyd o ran esiamplau, ac i rannu yr hyn sydd wedi gweithio yn ogystal a'r hyn sydd wedi methu, mewn gwahanol amgylchiada.

A does na'm rhaid i arfar dda fod yn torri tîr newydd chwaith. Ma' gwneud y petha bychain a'r gwaith caib a rhaw yn dda yn cyfri.

Dim perffeithrwydd sy'n bwysig chwaith. Weithia' ma'r buddion yn glir ac yn fesuradwy. Ond weithia' ma' cydweithio a newid diwylliant a dysgu yn fwy arwyddocaol.

Naill ffor neu llall, os dio'n helpu pobl a fo' na stori i ddeud, ‘da ni'n meddwl fod o werth ei rannu.

‘Da ni'n gwybod hefyd nad ydy arfar dda wedi'i gyfyngu gan ffiniau daearyddol.

‘Da ni'n edrych am arfar dda lle bynnag y bo, o awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru i brosiectau cymunedol yn yr Alban, neu wasanaethau digartrefedd yn Nova Scotia.

Be' fedran ni ddysgu sy'n bwysig. Yn y pen draw, gwaith GPX di cysylltu pobl, creu lle i wasanaethau cyhoeddus i ddysgu am ei gilydd, ac nid yn unig beth sy'n gweithio, ond hefyd be sy ddim yn gweithio.

Ceisio ysbrydoli sefydliadau i lunio i atebion eu hunain wedi'u ysbrydoli gan brofiadau eraill o'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw.

‘Da ni hefyd wedi cynnal nifer o sgwrsiau traws Iwerydd, gan gydweithio efo CLARI , y Change Lab Action Initiative, a Consider Conversation, y ddau wedi'u lleoli yn Nova Scotia.

Rydyn ni'n drafod nifer o themâu gan gynnwys gwydnwch ac adfywio cymunedol, gan rannu gwaith cwmni Bro Ffestiniog ar draws y dŵr. Wrth drafod sut all cymunedau gydweithio er mwyn creu dyfodol mwy sicr iddyn nhw eu hunain. Hefyd fu' i ni drafod tai a digartrefedd, a'r heriau tebyg sy'n wynebu Cymru a Nova Scotia.

Ma'r sesiynau yn rhoi gofod i ddysgu rwbath difyr, a sgwrsio efo pobl mewn rolau a sefydliadau tebyg sy'n wynebu heriau tebyg er eu bod nhw ar ochr arall i'r Iwerydd.

Rôl arall sy gynnon ni yw hwyluso gweithdai er mwyn cefnogi gwaith archwilio. Yn 2024, fu i ni gynnal cyfres o weithdai ar fioamrywiaeth yng Nghymru. Amcan y gweithdai oedd casglu gymaint o wybodaeth a phosib er mwyn creu darlun o'r sector yng Nghymru.

Fu i ni gynnal nifer o weithdai efo amrediad o randdeiliaid ar draws sefydliadau o'r sector gyhoeddus, er mwyn cywain y wybodaeth a'r profiad oedd yn ystafell.

Mae esblygiad parhaus y sector gyhoeddus yn golygu fodd raid i ninnau hefyd esblygu fel tîm. A ‘da ni'n cydnabod fod angan i ni addasu ein dulliau o rannu arfer da i weddu i nifer o anghenion gwahanol. A dyna pam da ni di penderfynu lansio podlediad, sef y podlediad yma digwydd bod.

‘Da ni'n gobeithio fydd o'n tyfu i fod yn gyfrwng er mwyn cario mlaen i rannu straeon difyr fydd o ddiddordeb i'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector, a dod a gwaith Archwilio Cymru'n fyw.

Felly, os ma' chwilio am syniadau newydd dach chi, neu isio cysylltu efo pobl eraill sy'n gwneud gwaith da, da ni yma i helpu.

# Mae Archwilio Cymru yn Sefydliad sy’n Hyfforddi

**Molly Simmonds:**
Fe wnaethon ni ddweud ar y dechrau ein bod ni yn hyfforddeion graddedig yma yn Archwilio Cymru, felly dyma ddweud mwy am hynny.

**Yazmin Bradberry:**
Mae Archwilio Cymru yn gwneud ei orau i adlewyrchu holl amrywiaeth cymunedau Cymru wrth recriwtio, a hynny o ran cefndir a phrofiad bywyd.

**Molly Simmonds:**
Y mwyaf amrywiol yw'r gweithlu, yna'r gorau allwn ni fod ar gyflawni swyddogaeth o ddal gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn atebol.

Felly pam oedden ni eisiau bod yn archwilwyr?

**Yazmin Bradberry:**
Mae fy nhaith i'r rôl hon ychydig yn wahanol i rhan fwya.

Dechreuais ar yrfa mewn addysg deuddeg mlynedd yn ôl ac yna llynedd penderfynais wneud newid oherwydd heriau yr oedd ym fy wynebu yn y sector. Un ohonynt oedd y straen ariannol.

Penderfynais y byddwn yn roi'r gorau i'w gwneud a defnyddio fy ngradd cyfrifeg o ychydig flynyddoedd yn ôl a dechrau gyrfa newydd fel archwilydd. Cynigodd y rôl gyfle unigryw i gyfrannu at sefydliad sy'n rhoi sicrwydd i ddinasyddion bod ei arian yn cael ei reoli'n dda, yn egluro sut mae'n cael ei wario ac yn ysbrydoli gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n gyfle i wneud effaith ystyrlon ar draws iechyd, addysg, cynghorau lleol a mwy, tra'n cynnal uniondeb ac atebolrwydd ar bob lefel.

**Molly Simmonds:**
Wnes i astudio Mathemateg yn y Brifysgol, ac yn ystod y cyfnod hwn, cryfhaodd fy ngallu datrys problemau am sgiliau meddwl dadansoddol sy'n hanfodol yn y rôl hon.

Yr hyn am denodd at archwilio ariannol, oedd y cyfle i gymhwyso fel cyfrifydd siartredig wrth ennill profiad gwerthfawr o weithio gyda sefydliadau'r sector gyhoeddus.

Rwy'n mwynhau'r ffaith bod archwilio yn yrfa o ddysgu parhaus lle mae'n rhaid i chi gadw i fyny â rheoliadau, technolegau a diwydiannau sy'n esblygu o hyd. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth yma ar ôl yn ei gynnig, nid oes dau ddiwrnod yr un fath yma.

Rydych chi'n cael y cyfle i weithio gyda gwahanol dimau o fewn y sefydliad yn archwilio gwahanol feysydd o gyfrifon ariannol ac yn ymgysylltu ag ystod o gyrff archwiliedig.

Y cyfuniad hwn o her ddeallusol, datblygiad proffesiynol, ac amrywiaeth yw'r hyn sy'n gwneud archwilio mor apelgar i mi.

**Yazmin Bradberry:**
Mae Archwilio Cymru yn lle braf iawn i weithio, gydag awyrgylch groesawgar a chefnogol sydd yn cymryd rywun o ddifri o'r cychwyn cyntaf, ac yn annog cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

**Molly Simmonds:**
Mae’n bwysig dweud hefyd and oes rhaid i chi gael gradd mewn mathemateg i fod yn archwilydd chwaith.

Mae angen i archwilwyr ariannol i fod yn gyfrifwyr cymwys er mwyn gwneud y gwaith, ond dydy'r un peth ddim yn wir am archwilwyr perfformiad.

**Yazmin Bradberry:**
Mae yno hefyd dîmau a gwasanaethau sydd yn cefnogi'r sefydliad a’r archwilwyr, ac rydych wedi clywed gan rai ohonynt yn barod, ac mae ganddynt ei arbenigedd sy'n cyd-fynd ag archwilio.

Wedyn mae'r gwasanaethau cefnogol fel adnoddau dynol, mae llawer mwy i archwilio Cymru na jyst archwilio yn unig.

**Molly Simmonds:**
Wna i ddweud mwy am ein cynllun prentisiaethau a hyfforddeion graddedig.

Does na ddim angen i chi gael gradd mewn cyllid neu fathemateg er mwyn ymuno gyda'n cynllun hyfforddeion neu ddod yn brentis.

Mae o'n help os ydych chi'n gyfforddus wrth drin rhifau, ond rydym hefyd yn gwerthfawrogi meddyliau miniog a chraff, sgiliau datrys problemau, yn ogystal â chyfathrebwyr, neu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

**Yazmin Bradberry:**
Rydym hefyd yn gwerthfawrogi gallu yn y Gymraeg.

Mae'n sefydliad sydd eisiau eich gweld yn llwyddo.

Os ydych yn cwblhau y cynllun hyfforddeion, byddwch yn gyfrifwyr siartredig cymwys.

Byddwch hefyd wedi cael mynediad at brofiadau megis mynd â'r secondiad i sefydliadau cyhoeddus eraill, ac achrediadau megis ILM.

**Molly Simmonds:**
Mae o'n waith caled, ac mae'r cynlluniau prentisiaeth ac hyfforddai graddedig yn ymrwymiad mawr, ond mae o werth yr ymdrech.

Mae nifer o'n hyfforddeion a phrentisiaid yn dod o hyd i gartref yma yn Archwilio Cymru i adeiladu eu gyrfaoedd, ond maent hefyd wedi ennill profiadau a gwybodaeth gwerthfawr sydd yn rhoi sylfaen gref iddynt pan maent yn penderfynu fod yr amser yn iawn i symud ymlaen.

Mae bod yn gyfrifydd yn sicr yn agor llawer o ddrysau.

**Yazmin Bradberry:**
Wedi'r cyfan, mae swyddfeydd archwilio yn cadw llygad ar wariant cyhoeddus dros y byd i gyd.

Tydi o ddim yn amhosib chwaith fod na rywun yn y swyddfa archwilio honno, a oedd unwaith yn hyfforddai graddedig Archwilio Cymru.

**Molly Simmonds:**
Ac ar y nodyn yna mae'n amser ffarwelio.

Hwyl fawr!

**Yazmin Bradberry:**
Ta-ta!

**Rhian Jones:**
Diolch Molly ac Yazmin am ein tywys o gwmpas Archwilio Cymru ac i bawb arall a rhoddodd o'u hamser i gyfrannu.

Diolch am wrando am y rhifyn yma o'r Gyfnewidfa. Os fydd i chi ei fwynhau, yna cofiwch danysgrifio ar eich hoff ddarparwr podlediadau.

Mi fyddai'n help mawr i ni pe baech yn gadael adolygiad ac yn sôn am y Gyfnewidfa wrth eich ffrindiau a chydweithwyr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, yn gyrrwch i arfer.da@archwilio.Cymru.

Cynhyrchwyd y podlediad yma gan y Gyfnewidfa Arfer Da yn Archwilio Cymru.

Tan y tro nesa, hwyl fawr.